**Mater Mis Ionawr 2024**

**Ymgynghori ar y Calendr Ysgol — 11-18 oed**

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Gwybodaeth i'r hwylusydd

Mae mater mis yma yn canolbwyntio ar gynigion Llywodraeth Cymru i newid dyddiadau tymhorau ysgol.

Bydd ein swyddfa yn ymateb i hyn ac fe hoffen ni gynnwys lleisiau plant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n eu cefnogi yn ein hymateb i Lywodraeth Cymru. Dilynwch y camau isod i gynnwys eich llais yn ein hymateb.

| **Gweithgaredd** | **Adnoddau ychwanegol/gwybodaeth bellach** |
|---|---|
| Dechreuwch y sesiwn trwy atgoffa'r plant am eu lle diogel. | Os nad ydych chi wedi creu un eto, mae gennym ni ganllaw ar gyfer creu un yma. |
| Dangoswch y fideo yma i'r bobl ifanc i ddechrau'r drafodaeth.<br><br>**Cefnogaeth gyda Geirfa:**<br>Yn y fideo rydyn ni'n defnyddio'r geiriau a'r termau canlynol, efallai byddwch chi am gefnogi'r bobl ifanc i sicrhau eu bod yn eu deall:<br><br>**Ymgynghori** — rydyn ni'n disgrifio hyn fel gofyn barn pobl ar bwnc.<br><br>**Comisiynydd Plant Cymru** — os yw pobl ifanc yn ansicr am y Comisiynydd a'i rôl, efallai byddwch chi am ddangos y fideo yma iddyn nhw. | |

| | |
|---|---|
| **Cynnal trafodaeth**<br><br>Gofynnwch i'r bobl ifanc rannu eu barn a chydweithio i greu rhestr o'r pethau maen nhw'n eu hoffi a'r pethau dydyn nhw ddim yn eu hoffi am wyliau'r haf.<br><br>**Os ydych chi'n gweithio fel grŵp, gallwch chi lenwi'r arolwg ar ran y bobl ifanc.**<br><br>**NEU**<br><br>**Gallwch anfon y linc i'r bobl ifanc i gwblhau yn annibynnol.**<br><br>LINC I'R HOLIADUR. | Sylwch: Mae blwch yn yr arolwg i chi ychwanegu unrhyw sylwadau fel oedolyn sy'n gweithio gyda phlant. |
| Gorffennwch y sesiwn trwy atgoffa'r disgyblion y byddwn ni'n rhoi adborth ar ffurf diweddariad ddechrau mis nesa.<br><br>LINC I'R YMGYNGHORIAD LLAWN<br><br>Rydyn ni hefyd am annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Llywodraeth.<br><br>Cewch hyd i'r ymgynghoriad (sy'n cau ar 13/02/24) a dogfennau darllen hwylus yma.<br><br>Bydd y lincs yma yn galluogi pobl ifanc i ysytyried syniadau y Llywodraeth yn llawn ac i ymateb yn uniongyrchol iddynt:<br><br>• gov.wales/schoolyear<br>• llyw.cymru/flwyddynysgol | Efallai byddwch chi am atgoffa'r disgyblion am eu Lle Diogel a'u hatgoffa pwy gallan nhw siarad â nhw yn yr ysgol os byddan nhw'n teimlo'n bryderus. |